ELUSEN IECHYD CAERDYDD A'R FRO

Adroddiad Blynyddol 2022-2023

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Cardiff & Vale HealthCharity
Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

CYNNWYS

3 Cyflwyniad gan Gadeirydd Ymddiriedolwyr yr Elusen Iechyd, a Chadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol

4 Nodweddion Codi Arian

8 Dosbarthu Rhoddion

9 Iechyd a Lles Staff

12 Gwasanaethau Cleifion

14 Prosiectau'r Trydydd Sector

17 Strategaeth 'Shake Up'

19 Diolch

21 Cyfrifon Blynyddol

54 Adroddiad yr Archwiliwr

CYFLWYNIAD

Croeso i Gaerdydd ac Adroddiad Blynyddol Elusen Iechyd y Fro ar gyfer 2022 – 2023

Eleni gwelwyd cyfnod o ailffocysu a myfyrio yn yr Elusen Iechyd i sicrhau bod rhoddion elusennol yn cael eu defnyddio lle bo angen. Rydym wedi ymgysylltu â gwasanaethau yn y Bwrdd Iechyd a sefydliadau'r Trydydd Sector yn rhan o amrywiaeth eang o brosiectau a gwelliannau sy'n seiliedig ar gleifion, staff, gwirfoddolwr a chymunedol, yn ogystal ag ymchwil, hyfforddiant a datblygiad.

UCHAFBWYNTIAU ALLWEDDOL 2022 - 2023

- Parhaodd yr Elusen Iechyd i alinio ei ffocws â rhaglenni Llunio Ein Dyfodol Gofal Iechyd a Lles Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, trwy ariannu amrywiaeth o brosiectau. Mae grantiau llwyddiannus a dderbyniwyd wedi cefnogi ystod eang o brosiectau gofal iechyd, ymchwil a datblygu, a chynaliadwyedd yn y Bwrdd Iechyd. Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn yr adroddiad hwn.
- Cynhaliodd nifer o'n Hapeliadau allweddol, h.y. PROP ac Apêl Canolfan y Fron eu digwyddiadau codi arian blynyddol am y tro cyntaf ar ôl y pandemig, a gefnogwyd yn hael gan roddwyr, codwyr arian a noddwyr.
- Cynrychiolodd aelodau staff a'u teuluoedd a'u ffrindiau yr Elusen Iechyd mewn nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys Hanner Marathon Caerdydd a Marathon Llundain, ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth anhygoel.
- Cafodd rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles flwyddyn brysur a llwyddiannus iawn. Mae manylion yr ystod eang o brosiectau a gweithgareddau y mae wedi'u hariannu a'u cefnogi yn 2022/23 i'w gweld yn adroddiad blynyddol y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Llesiant

Hoffem ddiolch i'r holl godwyr arian a'r rhoddwyr sydd wedi cyfrannu mor hael, a chydweithwyr y Bwrdd Iechyd sydd wedi gweithio'n ddiwyd i ddod o hyd i ffyrdd newydd o godi arian a chodi ymwybyddiaeth o'r Elusen Iechyd dros y deuddeg mis diwethaf.

Bydd yr Elusen Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar roi cymorth i gleifion, cydweithwyr, gwirfoddolwyr a chymunedau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i fyw bywydau iach a llawn.

Os hoffech gymryd rhan mewn codi arian neu wirfoddoli i gefnogi Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, mae manylion am sut i wneud hynny ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Diolch

Charles Janczewski

Cadeirydd Ymddiriedolwyr yr Elusen Iechyd

Akmal Hanuk

Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol

Nodweddion

CODI ARIAN

SUT RYDYM WEDI CODI ARIAN

Wrth i weledded ac ymgysylltiad yr Elusen Iechyd barhau i dyfu, rydym wedi rhyfeddu ar y gwaith codi arian anhygoel sydd wedi digwydd yn lleol, yn genedlaethol a hyd yn oed yn rhyngwladol trwy gydol 2022/23. Dyma ychydig o enghreifftiau o'n codwyr arian gwych sydd wedi cefnogi amrywiaeth o wasanaethau, rhai o'r rhain yn gwneud hynny'n hael er cof am anwyliaid a oedd wedi derbyn gofal iechyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Cododd Tom Millis a Will Evans fwy na £31,800 gyda nifer o ddigwyddiadau i gefnogi Uned Ffibrosis Systig Cymru Gyfan yn Ysbyty Athrofaol Llandochau er cof am eu cefnder Charli a gafodd drawsblaniad ysgyfaint dwbl yn 2015 ond yn anffodus bu farw ar ôl brwydr ddewr yn 2017. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys llwybr 10K Richard Burton, a buon nhw'n rhedeg ar y llwybr yn barhaus am 24 awr.

Mae gweithwyr Hafod, darparwr cymorth tai a gofal yn ne Cymru, wedi codi mwy na £4,000 i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, yn benodol at Uned Trawsblaniadau Mêr Esgyrn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r Uned Trawsblannu Mêr Esgyrn yn gwasanaethu cleifion â chlefydau haematolegol yng Nghanolbarth a De Cymru, sy'n gwasanaethu tua thri chwarter poblogaeth Cymru.

Enwebwyd yr Uned i fod yn bartner elusennol Hafod gan weithiwr ar ôl i'w fab gael trawsblaniad mêr esgyrn a achubodd ei fywyd fel rhan o'i driniaeth lewcemia myeloid acíwt.

CAWSOM RODDION HAEL O £1.276M GAN EIN CEFNOGWYR A'N CODWYR ARIAN

Trefnodd Andrea Drury ddigwyddiad codi arian ffitrwydd dŵr yn Awstralia heulog, er cof am y diweddar Toby Carrington, i gefnogi gwasanaethau Cardioleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a chododd fwy na £1,880!

Yn ôl yn 2019 fe wnaethom ddathlu llwyddiant Irene Hicks a'r tîm am godi ychydig yn fwy na £100,000 at ein Hapêl Canolfan y Fron.

A thair blynedd yn ddiweddarach, a hyd yn oed yn ystod pandemig byd-eang, doedd y tîm gwych ddim am gael ei drechu. Yn rhyfeddol, ym mis Awst eleni, cyrhaeddon nhw eu nod codi arian o £200,000, a roddwyd i Apêl Canolfan y Fron ers iddynt ddechrau ein cefnogi yn 2014.

£2.203M OEDD INCWM YR ELSUEN IECHYD YN 2022/23 YN SGIL RHODDION, GWADDOL, INCWM BUDDSODDI A GWEITHGAREDDAU MASNACHOL ERAILL

Mae'r Elusen Iechyd yn hynod ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr a rhoddwyr sydd wedi parhau i gefnogi a chodi arian mewn cymaint o ffyrdd anhygoel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon.

Supported by
Gifts in Wills
Cefnogir gan
Rhodd mewn Ewyllys

Mae'r Elusen Iechyd yn ddiolchgar iawn i'r rhoddion rheolaidd y mae'n eu derbyn gan roddwyr sy'n gadael rhodd yn eu hewyllys i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, i gydnabod y gofal iechyd a dderbynnir ganddynt hwy eu hunain neu eu hanwyliaid.

Mae'r rhoddion hael hyn yn helpu i gynnal gwasanaethau cleifion mewnol a chymunedol ledled Caerdydd a Bro Morgannwg mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.

DERBYNIWYD CYFANSWM O MEWN RHODDION ETIFEDDIAETH YN YSTOD 2022/23

£0.423M

Mae'r Loteri Staff yn parhau i gefnogi amrywiaeth eang o geisiadau cyllid cysylltiedig â chleifion a staff yn llwyddiannus, ac mae'r Elusen Iechyd yn ddiolchgar i'w haelodau presennol a newydd am eu cefnogaeth.

STAFF LOTTERY

£0.283M

CYNHYRCHODD YR ELUSEN IECHYD DRWY LOTERI STAFF CAERDYDD A'R FRO

dosbarthu
RHODDION

SUT GWARION NI ARIAN ELUSENNOL

Mae gwasanaethau gofal iechyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn cael eu hariannu gan y GIG. Yn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro rydym yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr i nodi ffyrdd o ddarparu cymorth ychwanegol a fydd yn gwella'r gwasanaethau a ddarparwn.

Mae gweithio'n gydlynol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Llunio Ein Lles i'r Dyfodol, a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn helpu i arwain gwaith presennol ac yn y dyfodol yr Elusen Iechyd. Byddwn yn parhau i adolygu anghenion y Bwrdd Iechyd wrth i fframwaith y gwasanaethau gofal iechyd gael ei adolygu a'i ddatblygu i ddiwallu anghenion cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg.

Dyma rai o'r ffyrdd y defnyddiodd yr Elusen Iechyd eich rhoddion hael i gefnogi gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

IECHYD A LLES STAFF

Yn sgil cefnogaeth ysgubol y cyhoedd ac unigolion uchel eu proffil mewn ymateb i'r pwysau ar y GIG yn ystod pandemig COVID-19 gwelwyd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn canolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar ffyrdd o gefnogi iechyd a lles ei staff. Roedd yr Elusen Iechyd yn falch o gynorthwyo Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mewn nifer o ffyrdd drwy ddefnyddio'r rhodd hael o £500,000 gan Mr a Mrs Gareth Bale er budd Ysbyty Athrofaol Cymru, yn unol â'u cais, a'r 'Gronfa Gwneud Hi'n Well' pwrpas cyffredinol i gefnogi ceisiadau gan wasanaethau cleifion mewnol a chymunedol ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

Roedd un o'r rhain yn cynnwys defnyddio arian elusennol i wneud gwelliannau amgylcheddol mewn gwasanaethau cleifion a meysydd gorffwys staff.

Dosbarthu Rhoddion

Cafodd cydweithwyr o Ganolfan Alwadau Gwasanaethau Dydd, Canolfan Hamdden y Barri, fainc gardd newydd trwy gyllid gan Banel Ceisiadau'r Loteri Staff sy'n eu galluogi i dreulio mwy o amser yn yr awyr agored yn ystod eu hegwyliau, gan wella eu hamgylchedd yn y gweithle.

Yn rhan o'u Prosiect Haf Llesiant, cyflwynwyd ardal eistedd newydd i Dîm Nyrsio Ardal Penarth i ymlacio a myfyrio yn ystod eu hegwyliau cinio. Drwy drawsnewid ardal o'u gweithle yn amgylchedd lliwgar a thawel, mae wedi caniatáu i gydweithwyr ymlacio yn ystod eu hegwyliau yn ogystal â chael lle i brosesu sefyllfaoedd a digwyddiadau anodd y maent yn dod ar eu traws yn ystod eu diwrnod.

Prynwyd cadeiriau cyfforddus, soffa a bwrdd coffi.

Roedd yr Adran Iechyd Galwedigaethol yn falch iawn o dderbyn cyllid gan y 'Gronfa Gwneud Hi'n Well' i ddarparu amgylchedd brafiach a mwy croesawgar i'w Gwasanaethau Lles Gweithwyr yn Nhŷ Dinbych. Mae adnewyddu'r ystafell aros, gan ddefnyddio celf wal a phrynu dodrefn newydd, wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i gydweithwyr sy'n gweithio yn yr adran ac i aelodau staff sy'n ymweld.

Dosbarthu Rhoddion

Agorodd Ystafell Fyw'r Cyhoedd Camerados ('y Gwenyndy') yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn swyddogol ym mis Gorffennaf 2022. gyda chymorth gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, rhoddwyd dodrefn cyfforddus, llyfrau a gemau yn yr ardal i helpu i wella lles meddyliol ac annog cydweithwyr i siarad ac estyn allan am gefnogaeth.

Mae'r Elusen Iechyd yn parhau i ddatblygu ei gwaith partneriaeth gyda sefydliadau cenedlaethol ac yn y gymuned leol.

Dangoswyd enghraifft o hyn pan fu staff o siop Starbucks leol yn ymweld â'r Tîm Elusennau Iechyd yn Nhŷ Coetir i roi detholiad o gwpanau, bagiau a setiau bambŵ y gellir eu hailddefnyddio i'w defnyddio ar gyfer mentrau lles staff.

Mewn partneriaeth ag NHS Charities Together, lansiodd Starbucks ymgyrch i gefnogi'r GIG, gan godi dros £100,000 drwy werthu eu cwpanau sy'n newid lliw. Bu hefyd yn cynnig bwyd a diodydd am ddim pan roedd y pandemig ar ei anterth.

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn hynod ddiolchgar i NHS Charities Together am ei chefnogaeth barhaus gan gynnwys ei gwobrau grant llwyddiannus ac i gwmniau partneriaeth am eu rhoddion hael.

Mewn ymgais i helpu staff i 'drechu gwres' haf poeth 2022, roedd cyllid gan Gronfa Staff y Loteri yn helpu i ddarparu hufen iâ am ddim i gynifer o gydweithwyr â phosibl yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau, gyda lolis iâ yn mynd i staff yn Ysbyty'r Barri ac Ysbyty Dewi Sant.

GWASANAETHAU CLEIFION

Mae rhodd hael gan Nathaniel Cars (partneriaid swyddogol Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro) wedi cefnogi lansiad ardaloedd newydd a gwell yn yr Uned Achosion Brys Pediatrig yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Mae'r Elusen Iechyd yn ddiolchgar iawn i Nathaniel Cars am ei chefnogaeth barhaus trwy ei rhoddion, codi arian, a darparu cerbyd hybrid, sy'n cefnogi'r Elusen Iechyd gyda digwyddiadau codi arian a dosbarthu rhoddion ymarferol i safleoedd ysbytai.

Cefnogwyd prosiect i wella amgylchedd y Clinig Cynenedigol yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, sy'n cynnwys Clinig yr Enfys, o gronfeydd elusennol. Codwyd peth o hyn gan staff a gerddodd 15 milltir o Ysbyty Athrofaol Llandochau mewn siâp calon, a thrwy rodd hael gan Cwmtawe 7's a gynhaliodd ddiwrnod golff.

Mae'r Elusen Iechyd wedi cefnogi Tîm Trawsblannu Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddathlu rhoi organau ac annog cleifion i fyw bywydau iach. Yn 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol gyllid newydd i gefnogi Tîm Trawsblannu Cymru gyda'u cyfranogiad yng Ngemau Trawsblannu Prydain dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Gemau Trawsblannu yn darparu cyfleoedd i gleifion trawsblaniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gadw'n actif a chymryd rhan mewn chwaraeon, sydd yn ei dro yn cefnogi eu hiechyd a'u lles trwy gymell y tîm i gadw'n heini.

PROSIECTAU'R TRYDYDD SECTOR

Roedd yr Elusen Iechyd wedi bod yn falch iawn o barhau â'i chefnogaeth i amrywiaeth eang o brosiectau'r trydydd sector ledled Caerdydd a Bro Morgannwg yn ystod 2022/23, ac mae'n ddiolchgar iawn i'w sefydliadau partner am gymryd rhan, cefnogi ac ymroi i'r prosiectau hyn sy'n cynnwys:

CYNLLUN GRANT TRYDYDD SECTOR 2022/23

Gan weithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) a Chyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3CS), helpodd yr Elusen Iechyd i ariannu prosiectau trydydd sector cymunedol ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnwys:

- INNOVATE TRUST
- NYAS CYMRU
- PROSIECT GARDDIO GGM
- YMDDIRIEDOLAETH POBL Y FRO
- BREATHE CREATE
- MOSS ROSE COTTAGE
- VALE PLUS
- THE MENTOR RING

EIN DÔL IECHYD

Mae datblygiad parhaus Ein Dôl Iechyd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau wedi cael ei groesawu a'i ddefnyddio gan wasanaethau clinigol ac adsefydlu cleifion mewnol, a'r gymuned leol.

Mae'r Elusen Iechyd yn falch iawn o fod yn rhan o'r fenter arloesol hon yng ngwasanaethau gofal iechyd, gan gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn glinigol, sy'n seiliedig ar therapi yn unol â Strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd, Llunio Ein Lles i'r Dyfodol.

Mae ceisiadau llwyddiannus am grantiau incwm gan NHS Charities Together, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol, a rhoddion hael ac ymdrechion codi arian a rhoddion cefnogwyr lleol Ein Dôl Iechyd wedi cyfrannu at lwyddiant parhaus y prosiect hwn.

Ym mis Gorffennaf 2022, Ein Dôl Iechyd oedd y prosiect cyntaf yng Nghymru i dderbyn 'Gwobr Lawn Adeiladu Gyda Natur'. Mae'r Safonau Adeiladu gyda Natur yn darparu canllawiau ar sail tystiolaeth i gynllunwyr a datblygwyr ar ddarparu seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel. Mae'r Safon yn rhoi natur yn ganolog i'r datblygiad mewn ffordd sy'n dda i bobl ac i fywyd gwyllt.

Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Suzanne Rankin, Pennaeth Rhaglen Gelfyddydau Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, Simone Joslyn, Gweinidog Economi Cymru, Vaughn Gething AS, a'n partneriaid Down to Earth yn Ein Dôl Iechyd ym mis Gorffennaf i ddathlu llwyddiant derbyn y wobr.

Ym mis Awst, cynhaliodd yr Elusen Iechyd ddigwyddiad sinema awyr agored yn Ein Dôl Iechyd. Er gwaethaf tymereddau esgynnol y tywydd poeth, daeth llawer ohonynt i fwynhau'r tair ffilm am ddim a oedd ar gael drwy gydol y dydd.

Hoffai'r Elusen Iechyd ddiolch yn fawr iawn i Down to Earth, cleifion, staff ac aelodau'r gymuned sydd wedi bod yn rhan o'r prosiectau amrywiol yn Ein Dôl Iechyd y flwyddyn ddiwethaf, gan gefnogi datblygiad y man gwyrdd unigryw hwn ar safle'r ysbyty yn Llandochau.

GARDD HORATIO

Ymunodd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro â chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i ddathlu agoriad swyddogol Gardd Horatio yn y Ganolfan Anafiadau Asgwrn y Cefn ac Adsefydlu Niwro yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ar 2 Gorffennaf.

Mae Horatio's Garden yn Elusen Genedlaethol arobryn sy'n adeiladu amgylcheddau gardd arbenigol i wella lles corfforol a seicolegol i gleifion sydd wedi cael anafiadau i'r asgwrn cefn, a dymar engrhaifft gyntaf o ardd o'r math hwn i gleifion a Byrddau Iechyd yng Nghymru ac fe'i hystyrir yn enghraifft i'w hefelychu yn ei maes.

Prosiect a ariennir ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n darparu'r tir yn hael, gydag Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn gwneud cyfraniad sylweddol o arian elusennol at y datblygiad cychwynnol a chynnal a chadw'r safle wedi hynny.

STRATEGAETH

'shake up'

EIN STRATEGAETH - SYMUD YMLAEN

Yn 2023, yn dilyn cyfnod o fyfyrio a gwersi a ddysgwyd drwy'r pandemig, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn nodi ei uchelgais i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau gofal iechyd sy'n bodoli yn ein cymunedau, galluogi pobl i gadw'n iach, a darparu gwasanaethau rhagorol i'r rhai sydd eu hangen, pan fydd eu hangen arnynt.

Bydd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn parhau i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i gefnogi'r angen hwn, a bydd yn cynnal adolygiad o'r Strategaeth Elusennau Iechyd gyfredol 2020 -2025, i barhau i gyd-fynd ag anghenion newidiol gwasanaethau gofal iechyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Mae nodau strategol yr Elusen Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar:

- Mynd y tu hwnt i wasanaethau'r GIG er budd cleifion, staff a chymunedau
- Cefnogi iechyd a lles ein poblogaeth drwy ymgysylltu'n gadarnhaol â gofal a'u cadw'n iach
- Gweithio gyda deiliaid cronfeydd i sicrhau bod arian a roddir yn cael ei wario, ac i ddenu arian er budd ein cymunedau lleol
- Creu'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer gofal iechyd cynaliadwy, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o dechnoleg

Mae modd gweld mwy o wybodaeth am Strategaeth Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro 2020 - 2025 yma.

diolch

Cardiff & Vale
HealthCharity
Elusenlechyd
Caerdydd a'r Fro

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn rheoli mwy na 300 o gronfeydd sy'n helpu gydag ymchwil, triniaeth a gofal cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae eich rhoddion yn darparu offer, yn gwella amgylcheddau ac yn cefnogi prosiectau mewnol ac allanol sy'n ychwanegol at yr hyn y gall cyllid prif ffrwd y GIG ei ddarparu. Mae'r Elusen Iechyd yn gweithio i hwyluso hyn ar eich rhan yn unig.

Mae'r Elusen Iechyd yn cefnogi rhoddwyr a chodwyr arian trwy weithio'n agos gyda staff i sicrhau bod pob ceiniog a roddwch yn cael ei gwario lle mae ei hangen fwyaf. Mae'n ariannu prosiectau sy'n gwella gwasanaethau i gleifion, ac yn helpu staff yn ymarferol ac yn emosiynol fel y gallant barhau â'r gwaith anhygoel y maent yn ei wneud.

Diolch i chi

AM EICH HAELIONI A'CH CEFNOGAETH YN YSTOD 2022/23

Gallwch ddarganfod mwy am Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro a ffyrdd o gefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro drwy roddion, codi arian, neu wirfoddoli ar ein gwefan.

WWW.HEALTHCHARITY.WALES/CY

@HealthCharity @cardiffandvalehealthcharity @Health_Charity @healthcharity

cyfrifon

BLYNYDDOL

CRYNODEB O GYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD ARIANNOL

CRYNODEB O INCWM

Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn ar gyfer y flwyddyn 2022-23 oedd £2.203m sy'n cynrychioli cynnydd o £0.443m o'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Cynhyrchwyd incwm yr Elusen o roddion, gwaddol, incwm buddsoddi a gweithgareddau masnachu eraill.

DADANSODDIAD INCWM 2022/23



Rhoddion (58% - £1.276m)
Mae'r Elusen yn ddiolchgar iawn o fod wedi derbyn rhoddion o £1.276m i'n helpu i gyflawni ein nodau a'n hamcanion.

Gwaddol (19% - £0.423m)
Derbyniodd yr Elusen £0.423m mewn gwaddol. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r unigolion hynny a gofiodd ein wardiau a'n hadrannau yn eu hewyllys.

Gweithgareddau Masnachu Eraill (17% - £0.363m)
Cynhyrchodd yr Elusen £0.283m drwy Loteri Staff Caerdydd a'r Fro a £0.080m drwy weithgareddau eraill.

Incwm Buddsoddi (6% - £0.141m)
Y Difidendau a'r Llog o Bortffolio Buddsoddi'r Elusen oedd £0.141m.

DADANSODDIAD O WARIANT 2022/23

Yn 2022/23 cafwyd gwariant o £1.984m ar weithgareddau elusennol. Roedd hyn yn cynnwys addysg a lles cleifion, addysg a lles staff, ymchwil a gwariant arall.



Buddsoddiadau a pherfformiad

Yn ystod 2022/23 gwelodd yr Elusen golledion gwerth marchnad o £0.325m.

Sefyllfa ariannol gyffredinol

Mae gwerth cyffredinol yr Elusen ar 31 Mawrth 2023 wedi cynyddu o falans agoriadol o £8.988m i £10.259m. Cynrychiolir y symudiad hwn o £1.271m gan wariant net o £0.236m, colledion buddsoddi o £0.325m ac ailbrisio asedau o £1.832m.

CYFRIFON ELUSEN IECHYD CAERDYDD A'R FRO AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

RHAGAIR

Paratowyd y cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a Deddf Elusennau 2011 ac Arferion a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU fel y bo'n gymwys o 1 Ionawr 2015.

CEFNDIR STATUDOL

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw ymddiriedolwr corfforaethol yr elusen o dan baragraff 16c o Atodlen 2 i Ddeddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990.

Penodwyd yr Ymddiriedolwyr o dan adran 11 o Ddeddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990.

PRIF DDIBEN Y CRONFEYDD A DDELIR AR YMDDIRIEDAETH

Prif ddiben yr elusen yw cymhwyso incwm at unrhyw ddibenion elusennol sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

YR ELUSEN

Crëwyd yr Elusen Iechyd ar 3 Mehefin 1996 gan Ddatganiad o Ymddiriedolaeth ac, yn dilyn ad-drefnu gwasanaethau iechyd, cafodd ei diwygio gan Weithred Atodol ar 12 Gorffennaf 2001 a 2 Rhagfyr 2010. Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro yw Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen Iechyd. Mae'r BIP yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am reoli'r arian i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Nod yr Ymddiriedolwr Corfforaethol (Ymddiriedolwr) yw codi a defnyddio cronfeydd elusennol i ddarparu'r budd mwyaf posibl i gleifion BIP Caerdydd a'r Fro a gwasanaethau iechyd lleol cysylltiedig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, drwy ategu yn hytrach na dirprwyo cyllid y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG.

COFRESTRIAD

Trosglwyddwyd y Cronfeydd Elusennol a ddelir gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rhinwedd Offeryn Statudol 2009 Rhif 1558 Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009. Newidiodd y weithred atodol, dyddiedig 2 Rhagfyr 2010, enw'r Elusen Iechyd yn ffurfiol i Elusen Diben Cyffredinol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Rhif Elusen Gofrestredig 1056544. Mae gan yr Elusen Iechyd nifer o elusennau cyfansoddol ac mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

- Catherine Jenkins
- Elusen Gyffredinol Addysg a Hyfforddiant
- Elusen Ysbyty Rookwood
- Elusen Gyffredinol Ysbyty Rookwood
- Elusen Gyffredinol Ymchwil a Datblygu
- Elusen Gyffredinol Lles Staff a Chleifion
- Cronfa Hyfforddiant, Ymchwil ac Addysg
- Elusen Gyffredinol Ysbyty Athrofaol Cymru

Mae'r cofrestriad hefyd yn cwmpasu Cronfa Fuddsoddi Gyffredin Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Cronfeydd Gwariadwy). Mae hyn yn cyfuno cronfeydd yr Elusen Iechyd yn un gronfa at ddibenion buddsoddi

CYFANSODDIAD

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dal cronfeydd elusennol fel yr unig ymddiriedolwr corfforaethol ac mae aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol ar y cyd am reoli'r cronfeydd elusennol hynny. Roedd aelodaeth y bwrdd fel a ganlyn ar yr adeg y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol.

SWYDDOG AELODAU

Suzanne Rankin	Prif Weithredwr
Ruth Walker	Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol tan 31 Mai 2022
Jason Roberts	Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro Gweithredol yn effeithiol 23/02/2022
Caroline Bird	Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro tan 24/07/2022
Paul Bostock	Prif Swyddog Gweithredu ers 22/08/2022
Abigail Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol
Catherine Phillips	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Rachel Gidman	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant
Dr Fiona Jenkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd a hefyd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddor Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Rôl ddeuol yw hon.
Fiona Kinghorn	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Yr Athro Meriel Jenney	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol

CYFARWYDDWYR ERAILL

James Quance	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro ers 18/01/2023
Nicola Foreman	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol tan 3/02/2023
David Thomas	Cyfarwyddwr Deallusrwydd Digidol ac Iechyd

AELODAU ANNIBYNNOL

Charles Janczewski	Cadeirydd
Ceri Phillips	Is-gadeirydd
Michael Imperato	Aelod Annibynnol - Cyfreithiol
John Union	Aelod Annibynnol - Cyllid
David Edwards	Aelod Annibynnol - Cyfathrebu Gwybodaeth a Thechnoleg
Yr Athro Gary Baxter	Aelod Annibynnol - Prifysgol tan 31/12/2022
Sara Moseley	Aelod Annibynnol - Trydydd Sector (Sector Gwirfoddol)
Y Cynghorydd Susan Elsmore	Aelod Annibynnol - Awdurdod Lleol
Akmal Hanuk	Aelod Annibynnol - Cymuned Leol
Rhian Thomas	Aelod Annibynnol - Cyfalaf ac Ystadau
Mike Jones	Aelod Annibynnol - Undeb Llafur
Keith Harding	Aelod Annibynnol - Prifysfol yn effeithiol ar 01/01/2023

AELODAU CYSWLLT

Sam Austin	Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Lance Carver	Aelod Cyswllt - Awdurdod Lleol

PWYLLGOR CRONFEYDD ELUSENNOL

Mae gan y Pwyllgor y gyfrifoldeb i:

- ★ Reoli a monitro'r defnydd o adnoddau'r cronfeydd er budd y cyhoedd, gan roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau
- ★ Cytuno ar drefniadau llywodraethu ar gyfer safonau a monitro
- ★ Adolygu strategaeth i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r Elusen Iechyd
- ★ Pennu strategaeth fuddsoddi'r Elusen Iechyd
- ★ Cytuno ar gynlluniau gwariant
- ★ Pennu amcanion a strategaeth codi arian

Rhestrir aelodau'r pwyllgor a wasanaethodd yn ystod 2022/23 isod:

Akmal Hanuk	Cadeirydd y Pwyllgor - Aelod Annibynnol - Cymuned tan 31/03/2023
Mike Jones	Is-gadeirydd y Pwyllgor - Aelod Annibynnol - Undeb Llafur
Ruth Walker	Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol
Catherine Phillips	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Rachel Gidman	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant
Fiona Jenkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd
Nicola Foreman	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol tan 3/02/2023
James Quance	Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro ers 18/01/2023
Susan Elsmore	Aelod Annibynnol - Awdurdod Lleol
Sara Moseley	Aelod Annibynnol - Trydydd Sector

CRONFEYDD ELUSENNOL

Mae ein Helusen yn cynnwys mwy na 300 o gronfeydd gwahanol, pob un â phwrpas penodol boed hynny ar gyfer ymchwil, hyfforddiant neu ardal benodol o ysbyty neu adran. Dyrennir yr holl arian a dderbynnir i'r cronfeydd hyn. Defnyddir y gronfa pwrpas cyffredinol lle mae'r rhoddwr yn dymuno i'r Elusen ddyrannu arian i gefnogi'r prosiectau a'r gweithgareddau sydd â'r angen mwyaf am gymorth ar draws y BIP cyfan. Rheolir pob cronfa gan ddeiliad cronfa arbenigol - yn gyffredinol arbenigwr yn y maes penodol sy'n berthnasol i'r gronfa. Mae'r Elusen yn gyfrifol am ddarparu arweiniad, gwybodaeth ariannol a chyngor i ddeiliaid cronfeydd.

Rydym yn rheoli tri math o arian:

Cronfeydd anghyfyngedig - cronfeydd cyffredinol yw'r rhain a dyma'r cronfeydd y gellir eu gwario yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr i wella'r gwasanaethau ar draws y BIP

Cronfeydd cyfyngedig - dim ond yn unol â'r cyfyngiadau a osodwyd gan yr Elusen pan gawsant eu rhoi neu eu codi y gellir gwario'r rhain.

Cronfeydd gwaddol - lle mae cronfeydd cyfalaf ar gael i'n Helusen ac mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Ymddiriedolwyr eu buddsoddi neu eu cadw. Lle mae gwaddol parhaol yn bodoli, nid oes gan Ymddiriedolwyr bŵer awtomatig i wario'r cyfalaf. Os yw'r gronfa'n waddol y gellir ei gwario, mae gan ymddiriedolwyr y pŵer i drosi cyfalaf yn incwm.

Mae'r gwaith o weinyddu arian o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan:

Yr Adran Cronfa Elusennol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ail Lawr, Tŷ Coetir,
Caerdydd, CF14 4HH

RHEOLI RISG BUDDSODDI

Mae'r Cwmni Rheoli Buddsoddiadau yn sgrinio'r buddsoddiadau cyn eu prynu i gydymffurfio â'r polisi moesegol. Yn ogystal, caiff daliadau presennol eu sgrinio'n rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus. Pe bai'r gronfa'n prynu swydd mewn daliad nad oedd yn cydymffurfio ac a nodwyd fel rhan o'r broses ôl-brynu, byddai'r buddsoddiad yn cael ei werthu wedyn.

Nid oes gan y portffolio fuddsoddiadau mewn cwmnïau y mae eu prif weithgareddau gweithgynhyrchu yn gysylltiedig â thybaco, alcohol, arfogaeth a phornograffi / adloniant i oedolion. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd buddsoddi cyffredin (a chynhyrchion tebyg) sy'n ymgorffori'r rhain yn eu portffolio.

POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN

Strategaeth yr Ymddiriedolwr Corfforaethol yw cymhwyso cronfeydd elusennol o fewn amser rhesymol o'u derbyn, yn ddelfrydol o fewn blwyddyn i ddwy flynedd, oni bai bod gofynion penodol ynghlwm wrth incwm. Yn hanesyddol, mae lefel y gwariant wedi'i brasamcanu'n gyffredinol i lefel yr incwm, gyda chronfeydd wrth gefn mwy na'r angen yn cael eu cadw i reoli unrhyw amrywiadau.

Mae'r polisi cronfeydd wrth gefn presennol yn nodi y dylai'r Elusen gadw'r cronfeydd wrth gefn canlynol:

- ★ Cronfa fuddsoddi asedau sefydlog ar wahân, yn seiliedig ar 10% o'r buddsoddiadau asedau gwerth sefydlog (tua £550,000)
- ★ Isafswm o £500,000 i sicrhau bod digon o arian ar gyfer ymrwymiadau parhaus

O safbwynt prosesau, nid oes cronfa unigol sy'n dal yr holl gronfeydd wrth gefn, ond ystyrir bod lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn yn fwy na digonol ar gyfer anghenion cyfredol. Wrth symud ymlaen bydd yr Elusen yn adolygu'r polisi cronfeydd wrth gefn i adlewyrchu unrhyw newidiadau i sefyllfa ariannol yr Elusen.

RISG CONTRACT BUDDSODDI

Rathbone yw Cwmni Rheoli Buddsoddi Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, a dechreuodd ar 1 Mehefin 2021 am gyfnod o dair blynedd gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall.

Mae'r Elusen yn ceisio sicrhau'r enillion mwyaf posibl ar gronfeydd tra'n mabwysiadu polisi ceidwadol ar risg a strwythur hyblyg mewn perthynas â Dosbarthu Dosbarth Asedau. Mae'r portffolio wedi'i strwythuro i alluogi amrywiaeth o fuddsoddiadau er mwyn cynhyrchu cyfradd enillion gystadleuol. Mae'r cyfarwyddwr buddsoddi wedi dirprwyo awdurdod i brynu a gwerthu buddsoddiadau wrth i gyfleoedd yn y farchnad godi. Mae'r Rheolwyr Buddsoddi yn mynychu'n ffurfiol ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ddwywaith y flwyddyn.

RISG RHEOLAETH ARIANNOL

Mae gweithdrefn rheolaeth ariannol, canllaw gwariant, fframwaith llywodraethu a strategaeth wedi'u datblygu i sicrhau bod digon o reolaethau rheoli ar waith i:

- ★ Sicrhau bod gwariant yn unol â gwrthrychau a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- ★ Sicrhau bod y meini prawf ar gyfer gwario arian elusennol yn cael eu bodloni'n llawn
- ★ Sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu'n cael eu cadw
- ★ Sicrhau bod penderfyniadau datganoledig o fewn paramedrau penodol.

Mae'r Adran Archwilio Mewnol hefyd yn cynnal adolygiadau blynyddol i werthuso digonolrwydd gweithdrefnau a rheolaethau, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch:

- ★ Cyflawni amcanion rheoli ar gyfer y systemau
- ★ Defnydd economaidd ac effeithlon o adnoddau
- ★ Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau
- ★ Diogelu asedau

Cyflwynir yr adroddiadau Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd, ac mae'r rhain yn fesur allweddol o ran lliniaru risg rheoli.

YMGYNGHORWYR

BANCWYR	Gwasanaeth Bancio Llywodraeth Southern House 7ydd Llawr Wellesley Grove Croydon CF9 1WW
RHEOLWYR BUDDSODDI	Rathbone Brothers Plc 8 Finsbury Circus Llundain EC2M 7A2
ARCHWILWYR ALLANOL	Archwilydd Cyffredinol Cymru 1 Cwr y Ddinas Stryd Tyndall Caerdydd CF10 4BZ
ARCHWILWYR MEWNOL	Adran Archwilio Mewnol Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru Llawr Cyntaf, Tŷ Coetir Caerdydd CF14 4HH
YMGYNGHORWYR TAW	Ernst & Young LLP Y Paragon Counterslip Bryste BS1 6BX

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £000	Cronfeydd Cyfyngedig £000	Cronfeydd Gwaddol £000	Cyfanswm 2022-23 £000
Adnoddau sy'n dod i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd:					
Rhoddion a Gwaddol	4	577	1,122	0	1,699
Gweithgareddau masnachu eraill	5	0	363	0	363
Incwm Buddsoddiadau	6	92	48	1	141
Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn		669	1,533	1	2,203
Gwariant ar:					
Godi arian	7	365	90	0	455
Gweithgareddau elusennol	8	845	1,115	24	1,984
Cyfanswm gwariant		1,210	1,205	24	2,439
Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau	14	(323)	0	(2)	(325)
Incwm/ (gwariant) net		(864)	328	(25)	(561)
Trosglwyddo rhwng cronfeydd		(4)	4	0	0
Symudiad net mewn cronfeydd		(868)	332	(25)	(561)
Enillion/(colledion) ar ailbrisio asedau sefydlog	13	0	0	1,832	1,832
Cysoni Cronfeydd		(868)	332	1,807	1,271
Cyfanswm y Cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2022 (Wedi'i ailddatgan)	20	4,340	2,127	2,521	8,988
Cyfanswm y Cronfeydd a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023		**3,472**	**2,459**	**4,328**	**10,259**

Mae'r nodiadau ar dudalen 34 i 51 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £000	Cronfeydd Cyfyngedig £000	Cronfeydd Gwaddol £000	Cyfanswm 2021-22 £000
Adnoddau sy'n dod i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd:					
Rhoddion a Gwaddol	4	425	854	0	1,279
Gweithgareddau masnachu eraill	5	21	286	0	307
Incwm Buddsoddiadau	6	123	50	1	174
Cyfanswm ur adnoddau a ddaeth i mewn		569	1,190	1	1,760
Gwariant ar:					
Godi arian	7	371	85	0	456
Gweithgareddau elusennol	8	1,082	874	25	1,981
Cyfanswm gwariant		1,453	959	25	2,437
Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau	14	448	0	3	451
Incwm/(gwariant) net		(436)	231	(21)	(226)
Trosglwyddo rhwng cronfeydd		5	(5)	0	0
Symudiad net mewn cronfeydd		(431)	226	(21)	(226)
Enillion/(colledion) ar ailbrisio asedau sefydlog	13	0	0	67	67
Cysoni Cronfeydd		(431)	226	46	(159)
Cyfanswm y Cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2021 (Wedi'i ailddatgan)	20	4,755	1,914	2,478	9,147
Cyfanswm y Cronfeydd a gariwyd ymlaen at 31 Mawrth 2022		**4,340**	**2,127**	**2,521**	**8,988**

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

DATGANIAD LLIFOEDD ARIAN PAROD AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR MAWRTH 2023

	Nodyn	Cyfanswm Cronfeydd 2022-23 £000	Cyfanswm Cronfeydd 2021-22 £000
Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredol:			
Arian parod net yn deillio o (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol	18	(486)	(731)
Llifiau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Difidend, llog a rhenti o fuddsoddiadau	6	141	174
Symudiad mewn Arian Buddsoddi	14	69	(11)
Enillion o werthu buddsoddiadau		3,611	1,923
Prynu buddsoddiadau	14	(2,982)	(1,662)
Arian parod net yn deillio o (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi		839	424
Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod adrodd		353	(307)
Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	16	207	514
Arian parod a chywerthoedd arian parod at ddiwedd y cyfnod adrodd	16	560	207

Mae'r nodiadau ar dudalen 34 i 51 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2023

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £000	Cronfeydd Incwm Cyfyngedig £000	Cronfeydd Gwaddol £000	Cyfanswm 31 Mawrth 2023 £000	Cyfanswm 31 Mawrth 2022 (Ailddatganwyd) £000
Asedau sefydlog:						
Asedau Diriaethol	13	0	0	4,288	4,288	2,479
Buddsoddiadau	14	3,602	1,908	36	5,546	6,569
Cyfanswm asedau sefydlog		**3,602**	**1,908**	**4,324**	**9,834**	**9,048**
Asedau cyfredol:						
Dyledwyr	15	35	467	0	502	121
Arian parod a chywerthoedd arian parod	16	326	230	4	560	207
Cyfanswm asedau cyfredol		361	697	4	1,062	328
Asedau anghyfredol						
Dyledwyr	15	12	0	0	12	24
Rhwymedigaethau:						
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	17	503	146	0	649	412
Asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol net		(130)	551	4	425	(60)
Cyfanswm asedau/(rhwymedigaethau) net		**3,472**	**2,459**	**4,328**	**10,259**	**8,988**
Cronfeydd yr elusen:						
Cronfeydd Gwaddol	20	0	0	40	40	42
Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn	20	0	0	4,288	4,288	2,479
Cronfeydd Incwm Cyfyngedig	20	0	2,459	0	2,459	2,127
Cronfeydd Incwm Anghyfyngedig	20	3,472	0	0	3,472	4,340
Cyfanswm Cronfeydd		**3,472**	**2,459**	**4,328**	**10,259**	**8,988**

Cyfarwyddwr Cyllid

Mrs Catherine Phillips

Dyddiad 25/1/24

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

a) Sail Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio asedau sefydlog diriaethol a buddsoddiadau sydd wedi'u cynnwys mewn prisiad.

Paratowyd y cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011 ac Arferion a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU fel y mae'n gymwys o 1 Ionawr 2015.

Mae'r cyfrifon (datganiadau ariannol) wedi'u paratoi i roi darlun "gwir a theg" ac wedi gwyro oddi wrth Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau sy'n ofynnol i ddarparu darlun "cywir a theg". Mae'r ymadawiad hwn wedi cynnwys dilyn y trefniadau Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 yn hytrach na Chyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2005 ond sydd wedi'i dynnu'n ôl ers hynny.

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r Elusen i barhau fel busnes gweithredol. Yn y dyfodol, y risgiau allweddol i'r Elusen yw gostyngiad mewn incwm o roddion neu ostyngiad mewn incwm buddsoddi ond mae gan yr Ymddiriedolwyr drefniadau ar waith i liniaru'r risgiau hynny (gweler yr adrannau Rheoli Risg Buddsoddi a Pholisi Chronfeydd Wrth Gefn yn yr adroddiad blynyddol am ragor o wybodaeth).

Mae'r Elusen yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS.

b) Os oes cyfyngiad cyfreithiol ar y diben ar gyfer gosod cronfa, caiff y gronfa ei dosbarthu naill ai fel:

- ★ Cronfa gyfyngedig neu
- ★ Gronfa waddol

Cronfeydd cyfyngedig yw'r rhai lle mae'r rhoddwr wedi darparu ar gyfer gwario'r rhodd i hyrwyddo diben elusennol penodedig.

Mae cronfeydd gwaddol yn codi pan fydd y rhoddwr wedi darparu'n benodol y caiff y rhodd ei fuddsoddi ac mai dim ond incwm y gronfa y gellir ei wario. Caiff y cronfeydd hyn eu his-ddadansoddi rhwng y rhai lle mae gan yr ymddiriedolwyr y disgresiwn i wario'r cyfalaf (gwariadwy) a'r rhai lle nad oes disgresiwn i wario'r cyfalaf (gwaddol parhaol).

Mae'r cronfeydd hynny nad ydynt yn waddol nac yn gronfa incwm gyfyngedig, yn gronfeydd incwm anghyfyngedig sy'n cael eu his-ddadansoddi rhwng cronfeydd dynodedig (wedi'u clustnodi) lle mae'r ymddiriedolwyr wedi neilltuo symiau i'w defnyddio at ddibenion penodol neu sy'n adlewyrchu dymuniadau rhoddwyr nad ydynt yn rhwymol a chronfeydd anghyfyngedig sydd yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, gan gynnwys y gronfa gyffredinol sy'n cynrychioli cronfeydd wrth gefn yr elusen.

c) Adnoddau sy'n dod i mewn

Cydnabyddir yr holl adnoddau sy'n dod i mewn unwaith y bydd gan yr elusen hawl i'r adnoddau, pan mae'n debygol (yn fwy tebygol na pheidio) y bydd yr adnoddau'n cael eu derbyn a phan ellir mesur gwerth ariannol adnoddau sy'n dod i mewn gyda digon o ddibynadwyedd.

Os oes telerau neu amodau ynghlwm wrth adnoddau sy'n dod i mewn, yn enwedig grantiau, yna rhaid bodloni'r telerau neu amodau hyn cyn i'r incwm gael ei gydnabod gan na fydd amod yr hawl yn cael ei fodloni tan y pwynt hwnnw. Lle nad yw telerau neu amodau wedi'u bodloni neu os oes ansicrwydd ynghylch a ellir eu bodloni, ni chydnabyddir yr incwm perthnasol yn ystod y flwyddyn - caiff ei ohirio a'i ddangos ar y fantolen.

d) Adnoddau incwm o waddol

Cyfrifir gwaddol fel adnoddau sy'n dod i mewn naill ai wrth eu derbyn neu lle mae'n debygol y derbynnir y gwaddol.

Mae'n debygol y cânt eu derbyn pan:

- ★ Gafwyd cadarnhad gan gynrychiolwyr yr ystâd(au) bod profiant wedi'i roi
- ★ Mae'r ysgutorion wedi sefydlu bod digon o asedau yn yr ystâd i dalu'r waddol ac
- ★ Mae'r holl amodau sy'n gysylltiedig â'r waddol wedi'u cyflawni neu o fewn rheolaeth yr Elusen.

Os oes ansicrwydd ynghylch swm y gwaddol ac na ellir ei amcangyfrif yn ddibynadwy, dangosir y waddol fel ased amodol hyd nes y bodlonir yr holl amodau ar gyfer cynhyrchu incwm.

e) Adnoddau incwm o gronfeydd gwaddol

Mae'r adnoddau sy'n dod i mewn o'r gronfa waddol a fuddsoddwyd yn gwbl gyfyngedig.

f) Adnoddau a wariwyd a TAW anadferadwy

Rhoddir cyfrif am yr holl wariant ar sail gronnol ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â phob categori o gost a ddangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Cydnabyddir gwariant pan fydd y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- ★ Mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol
- ★ Mae'n fwy tebygol na pheidio y bydd angen trosglwyddo buddiannau (taliad arian parod fel arfer) mewn setliad
- ★ Gellir mesur neu amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Codir TAW anadferadwy yn erbyn y categori perthnasol o adnoddau a wariwyd.

Mae rhwymedigaeth adeiladol yn codi pan:

- ★ Rydym wedi cyfleu ein bwriad i ddyfarnu grant i dderbynnydd sydd wedyn â disgwyliad rhesymol y bydd yn derbyn grant
- ★ Rydym wedi gwneud cyhoeddiad cyhoeddus am ymrwymiad sy'n ddigon penodol i'r derbynnydd fod â disgwyliad rhesymol y bydd yn derbyn grant
- ★ Mae patrwm ymarfer sefydledig sy'n dangos i'r derbynnydd y byddwn yn anrhydeddu ein hymrwymiad.

Mae gan yr Ymddiriedolwyr reolaeth dros swm ac amseriad taliadau grant ac, o ganlyniad, lle mae'r ymddiriedolwyr wedi rhoi cymeradwyaeth a bod unrhyw un o'r meini prawf uchod wedi'u bodloni, cydnabyddir y rhwymedigaeth. Fel arfer, ni ddyfernir grantiau gydag amodau ynghlwm. Fodd bynnag, pan gânt eu dyfarnu, rhaid bodloni'r amodau hynny cyn cydnabod y rhwymedigaeth.

Lle nad oes bwriad wedi'i gyfleu, ni chydnabyddir unrhyw wariant ond gwneir dynodiad priodol yn y gronfa briodol. Os yw grant wedi'i gynnig ond bod ansicrwydd a fydd yn cael ei dderbyn neu a fydd amodau'n cael eu bodloni, ni chydnabyddir unrhyw atebolrwydd ond datgelir rhwymedigaeth amodol.

g) Dyrannu costau cymorth

Costau cymorth yw'r costau hynny nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag un gweithgaredd. Mae'r rhain yn cynnwys costau staff, costau gweinyddu, costau archwilio mewnol ac allanol. Dosrennir costau cymorth ar sail balans cyfartalog y gronfa.

h) Costau codi arian

Costau cynhyrchu arian yw'r costau hynny y gellir eu priodoli i gynhyrchu incwm i'r elusen, ac eithrio'r costau hynny yr eir iddynt wrth ymgymryd â gweithgareddau elusennol neu'r costau a ysgwyddir wrth ymgymryd â gweithgareddau masnachu i hyrwyddo nodau'r elusen. Mae costau cynhyrchu arian yn cynrychioli costau codi arian ynghyd â ffioedd rheoli buddsoddi. Mae costau codi arian yn cynnwys treuliau ar gyfer gweithgareddau codi arian a ffi a delir i barti cysylltiedig, y Bwrdd Iechyd, o dan gytundeb codi arian. Defnyddir y ffi i dalu cyflogau a chostau cyffredinol swyddfa codi arian y Bwrdd Iechyd.

i) Gweithgareddau elusennol

Costau gweithgareddau elusennol yw'r holl gostau a ysgwyddir wrth geisio cyflawni nodau elusennol yr elusen. Dosrennir y costau hyn, lle na ellir eu priodoli'n llwyr, rhwng y categorïau o wariant elusennol yn ogystal â'r costau uniongyrchol. Mae cyfanswm costau pob categori o wariant elusennol yn cynnwys dosraniad costau cymorth fel y dangosir yn nodyn 8.

j) Dyledwyr

Mae dyledwyr yn symiau sy'n ddyledus i'r elusen. Cânt eu mesur ar sail eu swm adenilladwy.

k) Arian parod a chywerthoedd arian parod

Cynhelir arian parod yn y banc ac mewn llaw i dalu costau rhedeg yr elusen o ddydd i ddydd, wrth iddynt ddod yn ddyledus. Buddsoddiadau tymor byr, hylifol iawn yw cywerthoedd arian parod, fel arfer mewn cyfrifon cynilo llog sydd â rhybudd 90 diwrnod.

l) Credydwyr

Mae credydwyr yn symiau sy'n ddyledus gan yr elusen. Cânt eu mesur ar y swm y mae'r elusen yn disgwyl gorfod ei dalu i setlo'r ddyled. Dangosir symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn fel credydwyr hirdymor.

m) Enillion a cholledion a wireddwyd

Eir â'r holl enillion a cholledion i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Cyfrifir enillion a cholledion a wireddwyd ar fuddsoddiadau fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiannau a'r gwerth cario agoriadol (dyddiad prynu os yn ddiweddarach). Cyfrifir enillion a cholledion nas gwireddwyd fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a'r gwerth cario agoriadol (neu ddyddiad prynu os yn ddiweddarach).

n) Asedau sefydlog

Nodir buddsoddiadau ar werth y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn cynnwys yr enillion a'r colledion net sy'n deillio o ailbrisio a gwaredu drwy gydol y flwyddyn. Caiff asedau sefydlog diriaethol eu prisio fel a ganlyn:

i) Ailbrisiwyd y tir a'r adeiladau mewn perthynas ag Ysbyty Rookwood fel yr oedd ar 1af Ebrill 2022, ac roedd yr ailbrisio'n adlewyrchu'r cyfyngiad ar ddefnydd ysbyty yn unig. Lle y bo'n briodol rhwng prisiadau, cymhwysir mynegai priodol, a gyflenwir gan Lywodraeth Cymru, i ailbrisio'r ased.

ii) Caiff asedau yn ystod gwaith adeiladu eu prisio ar gost gyfredol.

iii) Y trothwy cyfalafu yw £5,000.

iv) Cofnodir symudiadau mewn ailbrisio yn y gronfa ailbrisio wrth gefn ar y fantolen.

Cynhelir prisiadau proffesiynol gan y Gwasanaeth Prisiwr Dosbarth bob pum mlynedd, sydd (fel cangen fasnachol Asiantaeth y Swyddfa Brisio) yn rhan o Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Cynhelir y prisiadau yn unol â Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio'r Sefydliad Syrfewyr Siartredig (RICS) i'r graddau y mae'r telerau hyn yn gyson â gofynion cytûn Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM. Cydnabyddir symudiadau mewn ailbrisio yn y Gronfa Ailbrisio.

Dibrisiant

i) Codir dibrisiant ar bob prif ddosbarth o ased diriaethol fel a ganlyn: nid yw tir ac asedau a ddefnyddir wrth adeiladu yn cael eu dibrisio. Caiff adeiladau, gosodiadau a ffitiadau eu dibrisio ar eu swm ailbrisiedig dros weddill oes asesedig yr ased fel y cynghorir gan y priswyr proffesiynol;

ii) Nodir amhariadau, lle yr eir iddynt yn ystod y flwyddyn, ar wahân yn nodyn 13 ac fe'u codir ar gronfeydd yr elusen lle y'u hachosir gan amrywiadau mewn prisiau ac i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol am y flwyddyn pan gafodd yr amhariad ei gydnabod.

iii) Mae bywyd economaidd defnyddiol adeiladau Elusen wedi cael ei bennu fesul ased gan y Prisiwr Dosbarth. Caiff y bywydau hyn eu hadolygu'n flynyddol gan yr Elusen i bennu eu priodoldeb ac fe'u hadolygir bob pum mlynedd gan y Prisiwr Dosbarth.

Caiff Asedau Rhodd eu cyfalafu ar sail y gost i'w hadfer yn llawn adeg eu caffael, a chân nhw eu hailbrisio a'u dibrisio fel y'i disgrifir uchod.

2. AILDDATGAN Y FLWYDDYN FLAENOROL

Er mwyn nodi'n gywir ddosbarthiad cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig yr Elusen ar 31 Mawrth 2022, ailddatganwyd y datgeliadau canlynol.

Datganiad o Weithgareddau Ariannol 2021/22	**£k**
Cynyddodd yr arian anghyfyngedig a ddygwyd ymlaen gan	16
Gostyngodd yr arian cyfyngedig a ddygwyd ymlaen gan	13
Gostyngodd yr arian gwaddol a ddygwyd ymlaen gan	3

Ailddatganiad Mantolen 31 Mawrth 2023	
Cynyddodd yr arian anghyfyngedig a ddygwyd ymlaen gan	16
Gostyngodd yr arian cyfyngedig a ddygwyd ymlaen gan	13
Gostyngodd yr arian gwaddol a ddygwyd ymlaen gan	3

3. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen. Yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hyn a nodir isod, nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiedig perthnasol eraill sy'n cynnwys yr Ymddiriedolwr Corfforaethol, aelodau'r bwrdd nac uwch staff rheoli allweddol.

Mae Aelodau'r Bwrdd (ac uwch staff eraill) yn gwneud penderfyniadau ar faterion Elusennol a Thrysorlys ond yn ymdrechu i gadw buddiannau pob un ar wahân ac nid ydynt yn elwa'n bersonol o benderfyniadau o'r fath. Mae datganiadau o fuddiant personol wedi'u gwneud ac maent ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol gysylltiadau agos â Phrifysgol Caerdydd sy'n cynnwys rhannu staff yn ogystal â rhannu llety ar Safle Ysbyty Athrofaol Cymru.

Cyfrifon Blynyddol

Mae'r tabl isod yn ymwneud â thrafodion ariannol partïon cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23

Parti Cysylltiedig	Incwm sy'n gysylltiedig â pharti 2022/23	Gwariant sy'n gysylltiedig â pharti 2022/23	Symiau dyledus i barti cysylltiedig 2022/23	Symiau dyledus gan barti cysylltiedig 2022/23
	£000	£000	£000	£000
Cyngor Caerdydd	97	9	0	97
Llywodraeth Cymru	26	0	0	0
Prifysgol De Cymru	0	4	0	1
Prifysgol Abertawe	0	3	0	0
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	0	2	0	0
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	23	1,084	352	23
Prifysgol Caerdydd	0	25	1	0

Mae'r tabl isod yn cynnwys enwau aelodau unigol y bwrdd a'r berthynas â'r parti cysylltiedig

Aelod o'r Bwrdd	Perthynas Parti Cysylltiedig
Gary Baxter	Athro Ffarmacoleg ym Mhrifysgol Caerdydd. Gwaith ymchwil Sefydliad Prydeinig y Galon
Ceri Phillips	Athro Emeritws, Prifysgol Abertawe; Athro Anrhydedd, Prifysgol Caerdydd Aelodau Annibynnol, PGIAC
Charles Janczewski	Prifysgol Abertawe - Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu'r Academi Iechyd a Lles
Susan Elsmore	Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles Cyngor Caerdydd/Dirprwy Lefarydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol CLILC/Llefarydd ar ran Mudo CLILC a Chadeirydd Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru/Aelod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i Caerdydd a'r Fro a Chadeirydd Partneriaeth Heneiddio'n Dda

Isod ceir manylion y ffigurau cymharol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2021/22

Parti Cysyltiedig	Incwm sy'n gysylltiedig â pharti 2021/22	Gwariant sy'n gysylltiedig â pharti 2021/22	Symiau dyledus i barti cysylltiedig 2021/22	Symiau dyledus gan barti cysylltiedig 2021/22
	£000	£000	£000	£000
Cyngor Caerdydd	0	23	8	0
Llywodraeth Cymru	0	0	0	0
Prifysgol De Cymru	0	8	0	2
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	0	876	209	23
Prifysgol Caerdydd	0	24	0	0

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

4. INCWM O RODDION A GWADDOL

	Cronfeydd Anghyfyngedig £000	Cronfeydd Incwm Cyfyngedig £000	Cronfeydd Gwaddol £000	Cyfanswm 2022-23 £000	Cyfanswm 2021-22 £000
Rhoddion	313	963	0	1,276	1,145
Gwaddol	264	159	0	423	134
	577	1,122	0	1,699	1,279

5. GWEITHGAREDDAU MASNACHU ERAILL

	Cronfeydd Anghyfyngedig £000	Cronfeydd Incwm Cyfyngedig £000	Cronfeydd Gwaddol £000	Cyfanswm 2022-23 £000	Cyfanswm 2021-22 £000
Loteri Staff	0	283	0	283	278
Masnachu Arall	0	80	0	80	29
	0	363	0	363	307

6. INCWM BUDDSODDI GROS

	Cronfeydd Anghyfyngedig £000	Cronfeydd Incwm Cyfyngedig £000	Cronfeydd Gwaddol £000	Cyfanswm 2022-23 £000	Cyfanswm 2021-22 £000
Ecwiti asedau sefydlog a buddsoddiadau tebyg	92	48	1	141	174
Buddsoddiadau Byrdymor	0	0	0	0	0
Blaendaliadau ac arian parod ar adnau					
	92	48	1	141	174

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

7. DADANSODDIAD O WARIANT AR GODI ARIAN

	Cronfeydd Anghyfyngedig £000	Cronfeydd Incwm Cyfyngedig £000	Cronfeydd Gwaddol £000	Cyfanswm 2022-23 £000	Cyfanswm 2021-22 £000
Swyddfa Codi Arian	347	0	0	347	356
Digwyddiadau Codi Arian	0	80	0	80	79
Ffioedd Rheoli Buddsoddiadau	18	10	0	28	21
	365	90	0	455	456

8. DADANSODDIAD O WEITHGARWCH ELUSENNOL

	Gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy £000	Costau cymorth £000	Cyfanswm 2022-23 £000	Cyfanswm 2021-22 £000
Addysg a lles cleifion	1,461	114	1,575	1,560
Addysg a lles staff	330	26	356	344
Ymchwil	13	1	14	19
Arall	4	12	16	34
Dibrisiant	23	0	23	24
	1,831	153	1,984	1,981

9. GRANTIAU

Yn ystod 2022/23 cymeradwywyd £0.033m gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.
Yn ystod 2021/22 cymeradwywyd £0.033m gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y taliadau grant.

Sefydliad	2022-23 £000	2021-22 £000
GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG	33	33
Cyfanswm	**33**	**33**

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

10. DYRANNU COSTAU CYMORTH

	Godi Arian £000	Gweithgareddau Elusennol £000	Cyfanswm 2022-23 £000	Cyfanswm 2021-22 £000
Llywodraethu	0	0	0	0
Archwilio Cymru	0	40	40	20
Archwilio Mewnol	0	20	20	9
Ffioedd Rheoli Buddsoddiadau	28	0	28	21
Cyfanswm Llywodraethu	28	60	88	50
Cyllid a Gweinyddu	0	95	95	94
	28	155	183	144

Mae cyllid a gweinyddu yn ymwneud â pharti cysylltiedig (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) a chostau staff yn benodol.

	Cronfeydd Anghyfyngedig £000	Cronfeydd Incwm Cyfyngedig £000	Cronfeydd Gwaddol £000	Cyfanswm Cronfeydd 2022-23 £000
Godi Arian	18	10	0	28
Gweithgareddau Elusennol	102	52	1	155
	120	62	1	183

11. TALIADAU CYDNABYDDIAETH, BUDDION A THREULIAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Nid yw'r elusen yn gwneud unrhyw daliadau am dâl nac yn ad-dalu treuliau i ymddiriedolwyr yr elusen am eu gwaith fel ymddiriedolwr.

12. TALIADAU CYDNABYDDIAETH YR ARCHWILYDD

Tâl yr archwilydd allanol am 2022/2023 yw £23,785 ond roedd ffioedd archwilio ychwanegol o £16,686 yn ymwneud â 2021/2022 wedi'u cynnwys yn ffigyrau 2022/2023 (2021/2022 £20.683 yn wreiddiol). Mae'r ffioedd yn ymwneud ag adroddiad blynyddol statudol a chyfrifon yn unig.

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

13. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol 2022-23 £000	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol 2021-22 £000
Cost neu brisiad		
Balans Agoriadol	2,584	2,517
Ychwanegiadau	0	0
Ailbrisio	1,816	67
Mynegeio	(89)	0
Gwarediadau	0	0
Amhariadau	0	0
Balans Clo	4,311	2,584
Dibrisiant cronedig		
Balans Agoriadol	105	81
Gwarediadau	0	0
Ailbrisio	(105)	0
Amhariadau	0	0
Tâl am y flwyddyn	23	24
Balans Clo	23	105
GAN Agoriadol	2,479	2,436
GAN Cloi	4,288	2,479

Ysbyty Rookwood yw'r unig Ased Sefydlog Diriaethol a gydnabyddir yn "Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol"

Cafodd Tir ac Adeiladau'r Elusennau eu hailbrisio gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio gyda'r dyddiad dod i rym 1 Ebrill 2022. Paratowyd y prisiad yn unol â thelerau'r fersiwn ddiweddaraf o Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Mae'n ofynnol i'r Elusen gymhwyso'r model ailbrisio a nodir yn SCRh 16 a gwerthfawrogi ei hasedau cyfalaf i werth teg. Diffinnir gwerth teg gan SCRh 16 fel y swm y gellid cyfnewid ased ar ei gyfer rhwng partïon gwybodus, parod mewn trafodiad hyd braich. Gwnaed hyn ar y dybiaeth bod yr eiddo yn cael ei werthu fel rhan o'r fenter barhaus sydd ar waith.

Fel rhan o'r ailbrisio ar 1 Ebrill, bu cynnydd yng ngwerth Ystâd BILl o £1.809 miliwn, ac o hyn: £1.971m oedd yr ailbrisiadau uwch a osodwyd yn erbyn cronfeydd wrth gefn, cafodd (£0.050m) yn sgil ailbrisiadau is ei gwrdd o gronfeydd wrth gefn a (£0.105m) yn sgil gwrthdroi dibrisiad cronedig.

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

14. BUDDSODDIADAU ASEDAU SEFYDLOG

Symudiad mewn buddsoddiadau asedau sefydlog	Buddsoddiadau a restrir ar gyfnewidfa stoc	Arian parod a ddelir mewn portffolio buddsoddi	Cyfanswm 2022-23	Cyfanswm 2021-22
	£000	£000	£000	£000
Gwerth y farchnad wedi'i ddwyn ymlaen	6,462	107	6,569	6,368
Ychwanegu: ychwanegiadau at fuddsoddiadau ar gost	2,982	0	2,982	1,662
Llai gwarediadau ar y gwerth cario	(3,739)	0	(3,739)	(1,861)
Ychwanegu unrhyw enillion / (colled) ar ailbrisio	(197)	0	(197)	389
Symudiad arian parod a ddelir fel rhan o'r portffolio buddsoddi	0	(69)	(69)	11
Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2023	5,508	38	5,546	6,569

Mae'r golled ar ailbrisio yn ymwneud â'r enillion nas gwireddwyd, ond cyfrifir y golled gyffredinol £325,000 (enillion 2021-22 o £0.451m), fel y'i dangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, drwy addasu hefyd yn sgil y colledion sydd wedi'u gwireddu o £0.127m (2021-22 £62,000). Mae symud arian a ddelir fel rhan o'r portffolio buddsoddi yn cynnwys tynnu £700,000 o'r portffolio buddsoddi.

Ar 31 Mawrth 2023 y buddsoddiad canlynol oedd y pwysoliad canrannol mwyaf (4.74%).
Gilt Gwyrdd Trysorlys 7/8% 31/07/2033 - £262,626

Ymdrinnir â buddsoddiad yr Elusen gan ymgynghorwyr buddsoddi a benodir gan yr Elusen, gan ddefnyddio proses briodol y Bwrdd Iechyd ar gyfer contractau prynu.Mae'r Elusen yn gweithredu polisi buddsoddi sy'n darparu ar gyfer lefel uchel o arallgyfeirio mewn daliadau o fewn dosbarthiadau asedau buddsoddi. Gwneir cyfran fawr o fuddsoddiadau gyda chwmnïau a restrir ar gyfnewidfa stoc y DU neu sydd wedi'u corffori yn y DU. Ariennir y rhan fwyaf o'r gwariant drwy roddion a gwaddol a ni fu benthyciadau, ac felly nid yw'r Elusen yn agored i risg hylifedd sylweddol. Mae'r Cwmni Rheoli Buddsoddiadau yn mynychu'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ddwywaith y flwyddyn i drafod pob agwedd ar berfformiad buddsoddi a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y perfformiad. Mae'r dyraniad dosbarth asedau yn rhan annatod o'r drafodaeth gan fod hyn yn gysylltiedig yn annatod â lleihau'r risg o fewn y portffolio.

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

15. DYLEDWYR

	Cyfanswm 31 Mawrth 2023 £000	Cyfanswm 31 Mawrth 2022 £000
Dyledwyr Eraill	113	2
Rhagdaliadau hirdymor > Blwyddyn 1	12	24
Rhagdaliadau byrdymor < Blwyddyn 1	58	23
Incwm Cronedig	331	96
Cyfanswm Dyledwyr	514	145

16. ARIAN PAROD YN Y BANC AC MEWN LLAW

	Cyfanswm 31 Mawrth 2023 £000	Cyfanswm 31 Mawrth 2022 £000
Arian parod yn y banc	560	207
	560	207

17. DADANSODDIAD O RWYMEDIGAETHAU

	Cyfanswm 31 Mawrth 2023 £000	Cyfanswm 31 Mawrth 2022 £000
Credydwyr o dan 1 flwyddyn		
Credydwyr eraill	624	389
Croniadau	25	23
Cyfanswm credydwyr	649	412

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

18. CYSONI INCWM / GWARIANT NET Â LLIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

	Cyfanswm Cronfeydd 2022-23 £000	Cyfanswm Cronfeydd 2021-22 £000
Incwm / (gwariant) net (fesul Datganiad o Weithgareddau Ariannu)	(561)	(226)
Addasiad ar gyfer:		
Taliadau dibrisiant	23	24
(Enillion) / colledion ar fuddsoddiadau	325	(451)
Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau	(141)	(174)
(Cynnydd) / gostyngiad mewn dyledwyr	(369)	(15)
(Cynnydd) / Gostyngiad mewn Credydwyr	237	111
Arian parod net yn deillio o (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol	(486)	(731)

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

19. RÔL GWIRFODDOLWYR

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr sy'n cefnogi gweithgareddau codi arian gyda chymaint o egni, angerdd a sgil. Ni allai'r Elusen gyflawni ei holl amcanion heb ymrwymiad parhaus y gwirfoddolwyr i wneud cymaint o wahaniaeth i gleifion, eu teuluoedd a chydweithwyr.

Mae'r Elusen wedi dechrau gweithio'n agosach gyda gwirfoddolwyr y Bwrdd Iechyd er mwyn datblygu a chynnal rolau Hyrwyddwr Elusen mwy penodol, gan gynnwys cefnogi ein rhedwyr mewn digwyddiadau sydd wedi'u trefnu a goruchwylio'r tuniau casglu elusennol. Yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir, oherwydd absenoldeb unrhyw sail mesur ddibynadwy, ni chydnabyddir cyfraniad y gwirfoddolwyr hyn yn y cyfrifon.

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

20. DADANSODDIAD O'R CRONFEYDD

a) Dadansoddiad o gronfeydd gwaddol

	Balans 1 Ebrill 2022 (Ailddatganwyd)	Incwm	Gwariant	Trosglwyddiadau	Enillion a cholledion	Balans 31 Mawrth 2023
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Catherine Jenkins	42	1	(1)	0	(2)	40
	42	1	(1)	0	(2)	40

b) Dadansoddiad o symudiadau cronfa cyfyngedig a mwyaf arwyddocaol

		Balans 1 Ebrill 2022 (Ailddatganwyd)	Incwm	Gwariant	Trosglwyddiadau	Enillion a cholledion	Balans 31 Mawrth 2023
		£000	£000	£000	£000	£000	£000
9447	Cronfa Apêl Bywyd Gwell Ffibrosis Systig	376	25	(57)	0	0	344
9479	Gwaddol Phillips - Ymchwil Asthma	209	5	(6)	0	0	208
9149	Uned Gofal y Fron - Dibenion Cyffredinol	175	108	(84)	0	0	199
9478	Gwaddol May - Ymchwil Asthma	137	3	(8)	0	0	132
9639	Apêl Telemetreg i Blant (Dibenion Cyffredinol)	95	2	(3)	0	0	94
9678	Loteri Staff	143	285	(322)	4	0	110
9724	Covid NHS Charities Together	75	252	(149)	0	0	178
9726	Synnwyr Bwyd Cymru	142	382	(269)	0	0	255
9699	Ponting Legacy Lung Function	0	156	0	0	0	156
	Arall	775	315	(307)	0	0	783
		2,127	1,533	(1,205)	4	0	2,459

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

c) Dadansoddiad o symudiadau cronfeydd dynodedig anghyfyngedig a mwyaf arwyddocaol

		Balans 1 Ebrill 2022 (Ailddatganwyd)	Incwm	Gwariant	Trosglwyddiadau	Enillion a cholledion	Balans 31 Mawrth 2023
		£000	£000	£000	£000	£000	£000
	Cronfeydd Anghyfyngedig						
9809	Anghyfyngedig Heb eu Dirprwyo	428	0	(603)	0	(323)	(498)
		428	0	(603)	0	(323)	(498)
	Cronfeydd Dynodedig						
9649	Rhodd Covid Bale	263	6	(72)	0	0	197
9644	Gwaddol Hughes (Cardioleg)	292	6	(34)	0	0	264
9600	Nyrsys Ysbyty Athrofaol Cymru	302	48	(13)	0	0	337
9524	Lewcemia a Lymffoma	137	8	(4)	0	0	141
9494	Ymchwil Gardiaidd Gwaddol Biggs	103	3	(3)	0	0	103
9659	Ymchwil Cardiaidd Gwaddol Morgan	102	2	(5)	0	0	99
9541	Gwasanaethau Cyffredinol Cardiaidd	8	181	(3)	0	0	186
9646	Uned Arennol Etifeddiaeth Williams	88	2	(4)	0	0	86
	Arall	2,617	413	(469)	(4)	0	2,557
		3,912	669	(607)	(4)	0	3,970
	Cyfanswm	4,340	669	(1,210)	(4)	(323)	3,472

d) Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn

	Balans 1 Ebrill 2022 (Ailddatganwyd)	Incwm	Gwariant	Trosglwyddiadau	Enillion a cholledion	Balans 31 Mawrth 2023
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Rookwood	2,479	0	(23)	0	1,832	4,288
	2,479	0	(23)	0	1,832	4,288

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

NODIADAU YCHWANEGOL

21. YMRWYMIADAU

	2022/23 £000
Mae gan y cronfeydd yr ymrwymiadau canlynol:	
Prosiectau elusennol	295
Cyfanswm	295

Enw'r ymrwymiad	**£000**
Costau Cynnal a Chadw Gerddi Niwrolegol (BT 20/07/013) (10 mlynedd)	94
Gwobrau Cydnabod Staff (CDdB 18/052) (4 blynedd)	5
Gwaredu Rookwood (CTM 19/06/009) (1-4 blynedd)	155
Atebion Trafnidiaeth BIP (CT/19/03/007) (1-4 blynedd)	32
Forget Me Not Chorus (CDdB 22/03/010) (1 flwyddyn)	1
Tîm Trawsblaniadau Cymru (CDdB 21/12/011) (1-5 mlynedd)	8
	295

	2021/22 £000
Mae gan y cronfeydd yr ymrwymiadau canlynol:	
Prosiectau elusennol	620
Cyfanswm	620

Enw'r ymrwymiad	**£000**
Cynllun Grant Trydydd Sector (CDdB 22/06/012) (1 flwyddyn)	36
Gerddi Niwrolegol (BT 20/07/013) (1-3 blynedd)	192
Costau Cynnal a Chadw Gerddi Niwrolegol (BT 20/07/013) (1-3 mlynedd)	94
Gwobrau Cydnabod Staff (CDdB 18/052) (4 blynedd)	20
Gwaredu Rookwood (CTM 19/06/009) (1-4 blynedd)	155
Atebion Trafnidiaeth BIP (CT/19/03/007) (1-4 blynedd)	70
Forget Me Not Chorus (CDdB 22/03/010) (1 flwyddyn)	13
Tîm Trawsblaniadau Cymru (CDdB 21/12/011) (1-5 mlynedd)	40
	620

22. ASEDAU WEDI'U RHOI

Yn ystod y flwyddyn prynodd yr Elusen asedau gwerth £0.092m (2021/22 £0.061m). Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol yr Elusen ac fe'u categoreiddir fel Asedau Wedi'u Rhoi yn Natganiadau Ariannol y BILl.

23. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y FANTOLEN

Mae'n ofynnol i'r datganiadau ariannol adlewyrchu'r amodau sy'n gymwys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Felly ni wneir unrhyw addasiadau yn sgil unrhyw newidiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau rhwng 31 Mawrth 2023 a dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae gwerth teg y buddsoddiadau a ddelir gan yr Elusen ar 31 Mawrth 2023 wedi newid yn y cyfamser fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2023 £000	**4 Ionawr 2024 £000**
Buddsoddiad	5,546	5,657

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR YNG NGNYSWLLT CYFRIFON

Mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o weithgareddau ariannol yr elusen yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth baratoi datganiadau ariannol gan roi barn wir a theg, dylai'r ymddiriedolwr ddilyn arfer gorau a dewiswch bolisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;

- ★ Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson;
- ★ Barnu a gwerthuso p'un a ydynt yn rhesymol a darbodus;
- ★ Datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys a datganiadau o arfer a argymhellir, yn amodol ar unrhyw wyriadau a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol; a
- ★ Pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol gywir ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth.Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r ymddiriedolwr yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Ar orchymyn yr ymddiriedolwr

Llofnod:

Ymddiriedolwr 25/01/2024

CYFRIFON ELUSENNAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2022/23

Fel Ymddiriedolwr Ariannol i'r arian a ddelir ar ymddiriedolaeth, rwy'n gyfrifol am:

- ★ cynnal cofnodion ariannol sy'n briodol i weithgareddau'r gronfa/eydd.
- ★ sefydlu a monitro system o reolaeth fewnol.
- ★ sefydlu trefniadau atal twyll a llygredd.
- ★ paratoi datganiadau ariannol blynyddol sy'n rhoi darlun cywir a theg o'r arian a ddelir ar ymddiriedolaeth a chanlyniadau eu gweithrediadau.

.....25/01/2024.....

.....

Ar ran yr Ymddiriedolwr Ariannol
Charles Janczewski - Cadeirydd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Ymddiriedolwr Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2023 ac o'i hadnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â Deddf Elusennau 2011.

Y sail i'r farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (SARhau [DU]) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu hegluro ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Rwyf i a'm staff yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gwaith archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a'm cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Adroddiad ar ofynion eraill

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'u chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd gyda hynny. Yr ymddiriedolwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yng nghwrs yr archwiliad, neu'n ymddangos mewn ffordd arall ei bod wedi ei chamddatgan. Os byddaf yn adnabod anghysonderau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i mi benderfynu a ydy hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion rwy'n adrodd arnynt fel eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn gofyn i mi gyflwyno adroddiad i chi mewn perthynas â hwy os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo a'r ffurflenni; neu
- mae'r wybodaeth a roddir yn y datganiadau ariannol yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol ag adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr;

Cyfrifoldebau
Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 52, mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am:

- cynnal cofnodion cyfrifeg digonol;
- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol fel y mae'r ymddiriedolwr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Elusen i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod y ymddiriedolwyr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr elusen yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Fe'm penodwyd yn archwilydd o dan adran 150 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rwy'n adrodd yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â SARhau (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro o ran:
- adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau.

- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, adnabûm y potensial ar gyfer twyll yn ymwneud â chyhoeddi cofnodion trafodion anarferol; a
- Chael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithredu'n unol â hwy, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Cael dealltwriaeth o gydberthnasau parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phrofion y datganiad ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai fu'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes hefyd gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, wedi ei effeithio gan anhawster canfod unrhyw afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a ddefnyddir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
26 Ionawr 2024

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Swyddog Atebol yw'r gwaith o gynnal a chadw gwefan y Bwrdd Iechyd a'i chywirdeb. Nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn ystyried y materion hyn, ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn y lle cyntaf.